# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 2

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

## PENNOD 3

DARPARIAETHAU GORFODI A GWEITHDREFNOL PELLACH

*Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu*

PROSPECTIVE

### 76 Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio

(1) Cyn rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, rhaid i'r Comisiwn roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

(2) Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio—

(a) nodi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig,

(b) datgan y rhesymau dros fwriadu ei roi,

(c) pennu'r cyfnod pan gaiff y corff llywodraethu gyflwyno sylwadau ynghylch yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig ("y cyfnod penodedig"), a

(d) pennu'r ffordd y caniateir i'r sylwadau hynny gael eu cyflwyno.

(3) Ni chaiff y cyfnod penodedig fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y ceir yr hysbysiad.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 76. (See end of Document for details)*

(4) Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff llywodraethu yn unol â'r hysbysiad rhybuddio wrth benderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.

(5) Ar ôl penderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r corff llywodraethu am ei benderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 76 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 76.